



Llywodraeth Cymru  
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymatebion

## Mesurau i Reoli Cregyn y Moch 2020

Crynodeb o'r ymatebion gan gynnwys yr ymatebion i'r ymgynghoriad gwreiddiol a'r ymatebion a gafwyd yn ystod yr estyniad

Tachwedd 2020

Mae'r ddogfen hon ar gael hefyd yn Saesneg.  
This document is also available in English.

## Cynnwys

1. Background.....	3
2. Consultation Period and Distribution.....	3
3. Responses.....	3
4. Consultation Questions .....	4
5. Summary .....	10
6. Next Steps.....	10
7. List of respondents .....	10

## 1. Cefndir

Ar 16 Mawrth 2020, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynnig i gyflwyno cynllun awdurdodi ar gyfer cregyn y moch a therfyn blynyddol cyffredinol ar faint o gregyn y moch y caniateir eu dal ym mharth Cymru.

Pwrpas yr ymgynghoriad oedd clywed barn am ein cynigion manwl ar gyfer cyflwyno:

- Cynllun i awdurdodi pob cwch o'r DU sy'n dal cregyn y moch mewn cewyll ym mharth Cymru,
- Terfyn blynyddol ar faint o gregyn y moch y gellir eu codi mewn cewyll ym mharth Cymru, a
- Therfyn glanio misol hyblyg ar gyfer y cychod sydd wedi'u hawdurdodi.

Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 7 Mehefin ar ôl cyfnod o 12 wythnos. Cyhoeddwyd canlyniadau'r ymgynghoriad yn WG40857 (ISBN Digidol 978-1-80082-102-6/ISBN 978-1-80082-101-9). Pan ddaeth yr ymgynghoriad i ben, cafwyd ar ddeall gan randdeiliaid y byddai'n fanteisiol estyn yr ymgynghoriad am bedair wythnos arall, oherwydd effeithiau pandemig y Covid-19 yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad gwreiddiol.

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion yn crynhoi'r ymatebion a ddaeth i law yn ystod y ddau gyfnod ymgynghori mewn un ddogfen.

## 2. Y Cyfnod Ymgynghori a Dosbarthu'r Ymgynghoriad

Dechreuodd yr estyniad o bedair wythnos ar 5 Hydref a daeth i ben ar 1 Tachwedd.

Gwahoddwyd pawb sydd â diddordeb yn niwydiant cregyn moch Cymru, gan gynnwys pysgotwyr, proseswyr a grwpiau amgylcheddol, i ymateb i'r ymgynghoriad. Hysbysebwyd yr estyniad yn eang gan gynnwys yn Fishing News, llythyr sy'n cael ei anfon at bob pysgotwr cofrestredig, ar wefan Llywodraeth Cymru, Twitter a thrwy gyfathrebu'n uniongyrchol â rhanddeiliaid. Cafodd rhanddeiliaid gyfle hefyd i siarad yn uniongyrchol â swyddogion.

Cafodd ymatebwyr ymateb gan ddefnyddio arolwg ar-lein, e-bost neu ffurflen ymateb ysgrifenedig.

Darparwyd hefyd Ffurflen Ymateb o 15 o gwestiynau'n gofyn i randdeiliaid am eu barn am opsiynau rheoli posibl.

## 3. Ymatebion

Carai Llywodraeth Cymru ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i gyflwyno'u barn ac ymateb i'r ymgynghoriad. Caiff pob ymateb ei ystyried cyn cyflwyno mesurau newydd.


Yn ystod yr ymgynghoriad gwreiddiol, daeth 57 o ymatebion i law oddi wrth amrywiaeth o wahanol ymatebwyr sydd â diddordeb ym mhysgodfa cregyn moch Cymru.

Yn ystod yr estyniad, daeth 3 ymateb arall i law, gan wneud cyfanswm o 60 o ymatebion. Gofynnodd un ymatebydd oedd wedi ymateb yn y cyfnod gwreiddiol am gael ychwanegu at ei ymateb gwreiddiol. Mae'r sylwadau hyn wedi cael eu hystyried ynghyd â'r ymatebion ysgrifenedig yn yr atebion testun.

O'r 60 o atebion, roedd 58 yn ateb y cwestiynau yn yr holiadur. Cafwyd atebion testun yn unig gan 2. Am hynny, ni chafodd eu hatebion eu hystyried wrth ddadansoddi'r cwestiynau hynny ond fe'u hystyriwyd o dan gwestiwn 14 yn lle hynny.

#### 4. Cwestiynau'r Ymgynghoriad

Roedd 15 cwestiwn yn yr ymgynghoriad hwn. Roedd y cwestiwn cyntaf, a adawyd heb rif at ddibenion dadansoddi, yn nodi cysylltiad yr ymatebydd â'r bysgodfa cregyn moch. Roedd y cwestiynau eraill yn gofyn am farn yr ymatebwyr i fanylion y mesurau a gynigir:



**Cwestiwn 1:** Ydych chi'n cytuno â phrif amcan Llywodraeth Cymru i ddiogelu stociau cregyn y moch a thrwy hynny, sefydlogi pysgodfa cregyn moch Cymru?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	57	98%
Nac ydw	1	2%
Dim sylw	0	0%

**Cwestiwn 2:** Ydych chi'n cytuno y dylai cychod o'r DU gael eu gwahardd rhag dal cregyn y moch o gewyll ym Mharth Cymru heb ganiatâd?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	55	95%
Nac ydw	2	5%
Dim sylw	0	0%

**Cwestiwn 3:** Ydych chi'n cytuno y dylech orfod gwneud cais am ganiatâd newydd bob blwyddyn, o ddechrau Mawrth tan ddiwedd Chwefror y flwyddyn ganlynol?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	45	78%
Nac ydw	10	17%
Dim sylw	3	5%

**Cwestiwn 4:** Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru godi tâl am ganiatâd?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	39	68%
Nac ydw	15	26%
Dim sylw	3	5%

**Cwestiwn 5:** Ydych chi'n cytuno â'r broses ar gyfer pennu terfynau glanio yn y dyfodol, a ddisgrifir ym Mlwch 2?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	47	82%
Nac ydw	5	9%
Dim sylw	5	9%

**Cwestiwn 6:** Ydych chi'n cytuno y dylai perchenogion cychod gael eu gwahardd rhag dal mwy na'r terfyn glanio misol?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	50	86%
Nac ydw	6	10%
Dim sylw	2	4%

**Cwestiwn 7:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd roi gwybodaeth ystadegol i Lywodraeth Cymru, fel nifer y cewyll y pysgotir â nhw, nifer cregyn y moch sy'n llai na'r maint lleiaf, lleoliad y pysgota ac ati i helpu i asesu'r stociau?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	49	84%
Nac ydw	2	3%
Dim sylw	7	13%

**Cwestiwn 8:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd gasglu data (fel y disgrifir ym mharagraff 44) i helpu i asesu'r stoc?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	51	88%
Nac ydw	5	9%
Dim sylw	1	2%

**Cwestiwn 9:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd roi data am faint o gregyn y maent yn eu glanio yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	51	88%
Nac ydw	6	10%
Dim sylw	1	2%

**Cwestiwn 10:** Ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru wahardd cychod â chaniatâd rhag cadw neu lanio cregyn moch sydd heb eu cregyn?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	54	93%
Nac ydw	1	2%
Dim sylw	3	5%

**Cwestiwn 11:** Ydych chi'n cytuno y dylai'r rheini sydd â chaniatâd sicrhau bod ganddynt system fyw i fonitro bwrdd y cwch wrth bysgota am gregyn moch o gewyll ym mharth Cymru?

Ateb	Nifer	Canran
Ydw	40	69%
Nac ydw	8	15%
Dim sylw	10	19%

**Cwestiwn 12:** Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai rhoi caniatâd i ddal cregyn moch â therfyn glanio hyblyg yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth, yn eich barn chi, fyddai'r effeithiau? Sut y gellir cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?

Ni chafwyd atebion o gwbl i'r cwestiwn hwn gan 34 o ymatebwyr. Teimlai 4 bod y cwestiwn yn amherthnasol. Dywedodd 6 ymatebydd y dylai dogfennau fod ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg yn gyfartal. Cafwyd atebion gan 5 ymatebydd nad oedd yn ymwneud â'r Gymraeg. Dywedodd 3 ymatebydd fod defnyddio'r Gymraeg yn 'wastraff ar amser ac arian'. Dywedodd 1 ymatebydd y dylai'r Gymraeg gael ei hannog. Dywedodd 1 ymatebydd bod y sefyllfa'n foddhaol fel y mae.

O ran y polisi, rhagwelodd 2 ymatebydd effeithiau negyddol ar y Gymraeg, rhagwelodd 1 ddim effaith ar y Gymraeg a dywedodd 1 ymatebydd y câi'r polisi effaith positif ar y Gymraeg. Dangosir rhai sylwadau isod:

*"In my opinion all documentation, authorisations, apps and any relevant literature and communications should all be available bi-lingually. The effect of issuing whelk authorisations in English only would be discriminatory, contrary to the Welsh Language Act 1993. Positive effects could be increased by providing all information in both Welsh and English."*

*"I am a welsh speaker and are happy to use the English language in all correspondence. I feel it a waste of money and time corresponding bilingually."*

*"I think documentation should be issued in both Welsh and English. Unfortunately not all Welsh citizens are Welsh speakers and it would be unfair to have the documentation solely in Welsh. Responses in the documentation should of course also be allowed in Welsh and English to ensure fishermen who may well speak Welsh but are not 100% fluent will not be discriminated against."*

**Cwestiwn 13:** Eglurwch hefyd pam yr ydych yn credu y gellid ffurfio polisi ar ganiatâd i ddal cregyn y moch â therfyn glanio hyblyg neu ei newid fel y caiff ddylanwad positif neu fwy o ddylanwad positif ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yn yr un ffordd â'r Saesneg, ac na fydd unrhyw ddylanwad anffafriol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar drin y Gymraeg yr un mor ffafriol â'r Saesneg.

Ni chafwyd ateb gan 43 o'r ymatebwyr i'r cwestiwn hwn. Dywedodd 4 y dylai dogfennau a'r caniatâd fod ar gael yn Gymraeg a Saesneg. Dywedodd 3 ymatebydd nad oedd y cwestiwn yn berthnasol. Cafwyd atebion gan ddau ymatebydd nad oedd yn ymwneud â'r cwestiwn. Dywedodd 1 ymatebydd y dylai cychod o Gymru gael blaenoriaeth am drwyddedau ond gan nad oes terfyn ar nifer y trwyddedau y gellid eu rhoi, nid oedd hynny'n ofid. Dywedodd 1 ymatebydd bod y sefyllfa'n foddhaol fel y mae. Ailadroddodd 1 ymatebydd nad oedd a wnelo pysgota ddim oll â'r Gymraeg.

Dangosir rhai o'r prif sylwadau'n llawn isod.

*"Again people should be encouraged to use the Welsh language more by providing the opportunity to complete any documentation in the language of choice be it Welsh or English."*

*"There should be an opportunity for the fisherman/vessel owner to receive their authorisation in either English or Welsh - individuals wishing to engage in the process in either language should not be subject to any discrimination on the basis of their language of choice"*

*"[...] agrees that use of the Welsh language should be treated no less favourably than the English language."*

**Cwestiwn 14:** Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydyn ni wedi mynd i'r afael â nhw, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi:

Roedd llawer o ymatebwyr wedi ateb ar ffurf testun i gwestiwn 14. Lle roedd ymatebwyr wedi ateb ar ffurf testun i gwestiynau 12 ac 13, rydym yn eu hystyried yn y fan hon..

Dyma'r prif bryderon a godwyd:

- Gwrthdaro ynghylch Gêr
- Pysgota anfwriadol
- Amseriad yr ymgynghoriad oherwydd Covid-19
- Maint Glanio Lleiaf
- Nifer cyfyngedig o ganiatadau
- "Râs i bysgota"
- Cynyddu'r ymdrech bysgota
- Terfyn glanio misol
- Cyfnod biolegol sensitif
- Terfyn blynyddol

#### **Gwrthdaro ynghylch y Gêr**

"If it is 50 tonnes a month then there will be massive steaming and relocation not only to mention massive gear/area conflict every month when people have to move."

#### **Pysgota Anfwriadol**

"Also please consider dormant gear taking up the sea bed that wouldn't be fished when out of area, with the 3 monthly option we wouldn't have gear dormant for weeks on end."

#### **COVID-19**

"This consultation has been conducted during a National/Global crisis (COVID-19), during which many prospective respondents, NGO's and Government bodies of all UK Administrations, have either been closed or partially staffed. We would contend that this consultation is therefore not compliant with the "Gunning" principles of public consultation."

"We recognise also that the consultation has occurred at an inauspicious time when most stakeholders are struggling to cope with the COVID-19 crisis, and we would thus question whether the Gunning Principles for Public Consultation have been adequately met."

#### **Maint Glanio Lleiaf**

Mynegwyd pryderon nad oedd yr ymgynghoriad wedi darparu data na rhagolygon o'r ymgynghoriad blaenorol ynghylch effaith cynyddu'r Maint Glanio Lleiaf.



### **Nifer gyfyngedig o ganiatadau**

Mynegwyd pryderon y gallai cychod ddychwelyd i ddyfroedd y DU i bysgota am gregyn y moch ar ôl i'r cyfnod pontio ddod i ben. Mae prisiau da a physgodfa hawdd cael ati yn debygol o weld rhagor yn pysgota.

### **Râs i Bysgota**

Mynegwyd pryderon y gallai cychod, a ddaliai ond ychydig tunelli cynt, geisio dal y terfyn misol llawn bob mis er mwyn cael cofnod eu bod yn gwneud.

### **Cynyddu'r ymdrech bysgota**

Dywedodd 6 ymatebydd eu bod yn rhagweld y byddai'r cynigion yn arwain at fwy o bysgota oherwydd gan yr oedd y terfyn glanio blynyddol yn seiliedig ar lanio cregyn y moch 45mm, o orfod glanio cregyn 65mm, bydd angen pysgota rhagor i lanio'r un cyfanswm, gan arwain at ddefnyddio mwy o offer a threulio mwy o ddyddiau ar y môr.

### **Terfyn Glanio Misol**

Cafwyd sylwadau gan sawl ymatebydd ynghylch y terfyn glanio. Roedd rhai am ragor o wybodaeth ynghylch sut y gallai'r terfyn hyblyg newid. Dywedodd eraill y byddai'n ei gwneud yn anodd i fusnesau gynllunio neu y byddai cychod o Gymru'n gorfod pysgota y tu allan i Gymru.

### **Cyfnod Biolegol Sensitif**

Dywedodd 2 ymatebydd y gallai fod angen cyfnod biolegol sensitif fel mesur ychwanegol gan fod y terfyn yn y cynnig yn seiliedig ar gregyn moch 45mm dros y cyfnod glanio prysuraf.

### **Terfyn blynyddol**

"The level of the TAC is based on an average of landings recorded in Welsh ports from these waters. Catches taken from these waters but landed elsewhere are not accounted for. It is not clear therefore whether the 5-year average landing is an accurate reflection of whelk taken from these waters. Ideally landings from Welsh waters to non-Welsh ports should be considered to avoid the annual TAC limit underestimating available harvestable biomass."

".. setting annual catch limits at 5298 tonnes may cause unhealthy declines in whelk populations, as it is significantly higher than the amount landed in 2019."

### **Cychod llai**

"I think any commercial vessel 6.00m or under should automatically be given an authorisation as they do not have a big impact on whelk stocks compared to the larger vessels."

## 5. Crynodeb

Gofynnwyd nifer o gwestiynau penodol yn yr ymgynghoriad ynghylch:

- Diogelu stoc cregyn moch Cymru
- Awdurdodi cewyllwyr cregyn y moch
- Ffi am ganiatâd
- Terfynau glanio
- Casglu data
- Yr effaith ar y Gymraeg

Mae'r canlyniadau'n dangos bod llawer iawn o gefnogaeth i'r cynigion.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi gwneud popeth yn eu gallu i sicrhau bod y ffigurau a ddyfynnir yn y ddogfen hon yn gywir.

## 6. Camau Nesaf

Bydd swyddogion polisi Llywodraeth Cymru yn ystyried nawr yr holl ymatebion a'r sylwadau sydd wedi dod i law. Bydd swyddogion yn paratoi briff ar gyfer y Gweinidog ar y canlyniadau ac yn ceisio paratoi deddfwriaeth newydd a phroses reoli newydd ar gyfer rheoli pysgodfa cregyn moch Cymru mewn ffordd gynaliadwy.

Bydd swyddogion yn para i drafod â rhanddeiliaid ac yn cydweithredu wrth ddrafftio Offeryn Statudol ar gyfer cyflwyno cynllun cydsynio newydd.

Bydd swyddogion yn ystyried effeithiau ymadael â'r UE a phandemig y Covid-19 cyn cyflwyno mesurau a allai gael effaith ar y diwydiant.

## 7. Rhestr o ymatebwyr

Gofynnodd yr holl ymatebwyr a ymatebodd yn ystod yr estyniad am fod yn ddiennw. Argreffir isod restr o'r holl ymatebwyr a ymatebodd i'r ymgynghoriad gwreiddiol ac na ofynnodd am gael bod yn ddiennw. Mae manylion y rheini sydd wedi dewis bod yn ddiennw wedi'u cadw rhagoch.

Nigel Sanders  
Dr John Anthony Oconnor  
Jonathan Haines  
Brett James Garner  
Mark Roberts  
Albert Glyndwr Phillips  
Jan Tuttle  
Cyfoeth Naturiol Cymru/Natural Resources Wales  
Peter Carmichael  
Alex Passmore  
Carl Davies  
Bill and Charlie Brock  
Marine Conservation Society  
SWFPO Ltd

Cyswllt Amgylchedd Cymru/Wales Environment Link  
Western Fish Producer's Organisation Ltd  
Waterdance  
Dean Parry  
Liam Ridgway  
Lisa Roberts  
Shaun Williams  
Stuart Jones  
UK Whelk Management Group  
Allan Denman  
Ashley Tainton  
Barry Thomas  
James Wilson  
Pwyllgorau Pysgota'r De a'r Gorllewin  
Kieron Samples  
Macduff's  
Mike Thomas  
Robert Moore  
The Welsh Fishermen's Association – Cymdeithas Pysgotwyr Cymru (WFA-CPC)  
Dyfyd Davies  
Tim Bowman